CEREDIGION

# Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Awdur: Adnoddau Dynol Corfforaethol

Cymeradwywyd gan y Cabinet: 26 April 2016

# Cyngor Sir Ceredigion

## Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

**1 CYFLWYNIAD**

Rydym yn sylweddoli bod gan staff, fel aelodau eraill o'r boblogaeth, hawl i rwydweithio'n gymdeithasol ar wefannau gan gynnwys Facebook, Twitter, My Space, You Tube, LinkedIn.

Mae'r Cyngor yn cydnabod rhyddid ei gyflogeion i lefaru. Dylai'r cyflogeion sylweddoli bod rhaid i hyn fod yn briodol ac na ddylid defnyddio'r rhyddid fel rheswm dros beidio â dilyn polisïau cywir y Cyngor a nodir ym Mharagraff 2 isod.

**2 POLISÏAU A DOGFENNAU PERTHNASOL**

Dylech ddarllen y polisi hwn ochr yn ochr â'r dogfennau a ganlyn:

(i) Y Cod Ymddygiad
(ii) Y Polisi Diogelu Gwybodaeth
(iii) Y Polisi Disgyblu
(iv) Y Drefn Gwyno
(v) Polisi Chwythu'r Chwiban
(vi) Y Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Gyflogeion Llywodraeth Leol
(vii) Y Polisi Golygyddol a Gweinyddol ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol (dim ond yn berthnasol i staff sy'n gyfrifol am dudalennau cyfryngau cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion)
(viii) Llawlyfr y Cyflogeion

**3 CWMPAS**

3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl gyflogeion Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â defnyddio unrhyw un o'r cyfryngau cymdeithasol sy'n cynnwys Facebook (rhwydweithio cymdeithasol), Twitter (microflog), YouTube (rhannu fideos), Flickr (rhannu delweddau), Instagram (rhannu delweddau). Gall fod llawer o enghreifftiau eraill yn ychwanegol at y rheini a restrir yma ac rydym yn sylweddoli bod hwn yn faes sy'n newid yn gyson.

3.2 Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i flogiau personol, i unrhyw beth y byddwch yn ei bostio ar flogiau eraill, ac i bob fforwm a hysbysfwrdd ar-lein.

**4 NODAU AC AMCANION**

4.1 Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r egwyddorion y dylech eu harddel ac yn rhoi canllawiau ynghylch defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol a gwefannau eraill er mwyn:

- diogelu staff
- diogelu'r Cyngor
- atal camddefnydd
- diogelu dinasyddion Ceredigion

4.2 Nod y polisi yw sicrhau bod pob cyflogai'n gwybod y gallai wynebu camau disgyblu o dan Bolisi Disgyblu'r Cyngor pe na bai'n dilyn y canllawiau hyn.

Gallai achosion mwy difrifol fod yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol a gallai'r cyflogai gael ei ddiswyddo.

## 5 DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

5.1 Os bydd cyflogai'n defnyddio adnoddau'r Cyngor at ddibenion y cyfryngau cymdeithasol, rhaid i'r defnydd hwnnw fod yn rhesymol a rhaid iddo gydymffurfio â Pharagraff 6 Polisi Diogelu Gwybodaeth y Cyngor:

> *"Ystyr defnydd personol yw defnyddio adnoddau'r Cyngor at ddiben nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni dyletswyddau swyddogol y Cyngor neu ddisgrifiad swydd y defnyddiwr. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyflwyno rheolaethau mynediad i gyfyngu ar hyd a lled unrhyw ddefnydd personol.*
>
> *Dim ond pan fo'r **holl** amodau isod yn berthnasol y caniateir defnydd personol:*
>
> - *mae defnydd o'r fath o natur breifat, nid er budd ariannol, ac nid yw'n mynd yn groes i unrhyw un o bolisïau eraill y Cyngor;*
> - *nid yw'r Cyngor yn mynd i unrhyw gostau oherwydd defnydd o'r fath;*
> - *nid yw defnydd o'r fath yn tarfu ar fusnes swyddogol y Cyngor;*
> - *nid yw defnydd o'r fath yn ymwneud ag unrhyw beth sy'n hybu gweithgareddau anghyfreithlon, gweithgareddau rhywiol nac unrhyw weithgareddau eraill sy'n mynd yn groes i bolisïau'r Cyngor."*

5.2 Pan fyddant yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid i'r cyflogeion gadw mewn cof y cysylltiad rhyngddynt a'r Cyngor. Os byddant yn datgelu pwy ydyn nhw neu os bydd modd gwybod eu bod yn gweithio i'r Cyngor, dylent sicrhau bod eu proffil ac unrhyw gynnwys perthnasol yn gyson â'r ffordd y byddent am eu cyflwyno eu hunain i'w cydweithwyr, i'r cynghorwyr, i ddefnyddwyr gwasanaethau ac i'r cyhoedd.

5.3 Dylai'r cyflogeion egluro bod unrhyw beth y maent yn ei bostio'n adlewyrchu eu barn nhw ac nad ydynt yn siarad ar ran y Cyngor.

5.4 Rhaid i'r staff gadw mewn cof y gall fod i unrhyw sylwadau a wneir drwy'r cyfryngau cymdeithasol tu allan i oriau gwaith oblygiadau o ran eu rhwymedigaethau contractiol i'r Cyngor. Gall sylwadau o'r fath hefyd fod yn destun digwyddiad chwythu'r chwiban.

5.5 Rhaid i'r staff gadw mewn cof y gall defnydd amhriodol neu annoeth o'r cyfryngau cymdeithasol niweidio eu henw da nhw fel unigolion a/neu enw da'r Cyngor. Os byddant yn dwyn anfri ar y Cyngor, gall arwain at gamau disgyblu.

5.6 Yn ystod oriau gwaith, ni chaiff cyflogeion ond fynd i wefannau cyfryngau cymdeithasol cymeradwy sy'n ofynnol ar gyfer eu swyddi ac edrych ar dudalennau o'r fath. Rhaid bod modd cyfiawnhau defnyddio gwefannau o'r fath a rhaid i'w rheolwr llinell gymeradwyo gwneud hynny cyn iddynt fynd i wefannau o'r fath.

## 6 DIOGELU PLANT AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED

6.1 Mae nifer o swyddi o fewn y Cyngor yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

6.2 Rydym yn sylweddoli bod risgiau posibl i blant ac oedolion sy'n agored i niwed pan fyddant yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a gwefannau rhwydweithio cymdeithasol. Ymhlith y risgiau hyn mae seiberfwlio, meithrin perthynas amhriodol ar-lein, camdriniaeth bosibl, dwyn hunaniaeth, a dod i gysylltiad â chynnwys amhriodol.

6.3 Rhaid i staff sy'n gweithio mewn amgylchedd diogelu sylweddoli eu bod yn cyflawni swyddi sensitif. Cyn iddynt ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, dylent ystyried a allai eu gweithredoedd arwain at unrhyw bryderon posibl o ran diogelu.

## 7 SWYDDI O DAN GYFYNGIADAU GWLEIDYDDOL

Rydym yn atgoffa cyflogeion mewn swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol, fel y'u diffinnir ym mholisi'r Cyngor ar Gyfyngiadau Gwleidyddol ar Gyflogeion Llywodraeth Leol, fod y cyfyngiadau a bennir yn y polisi hwnnw yr un mor berthnasol i'r cyfryngau cymdeithasol.

## 8 RHEOLWYR LLINELL

8.1 Mae rheolwyr llinell yn gyfrifol am sicrhau bod y rheini sy'n rhan o'u tîm yn deall gofynion y polisi hwn.

8.2 Disgwylir i reolwyr llinell ymdrin â phryderon neu broblemau a godir gan eu staff o ran defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol neu gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio polisi perthnasol y Cyngor, os yw'n briodol, er enghraifft y polisi disgyblu neu'r polisi cwynion.

8.3 Mae'r swyddogion Adnoddau Dynol yn gyfrifol am roi cyngor i reolwyr llinell a'u cynorthwyo i roi'r polisi hwn ar waith.

# Atodiad 1

## Canllawiau i staff y Cyngor

Oherwydd natur agored y rhyngrwyd, gall staff y Cyngor fod mewn sefyllfa fregus pan fyddant yn defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol os na fyddant yn rhoi sylw i rai rhagofalon syml. Bwriedir i'r canllawiau isod roi cyngor cyffredinol ichi i sicrhau na fyddwch yn niweidio eich rôl broffesiynol na'ch enw da.

**Preifatrwydd**

- I sicrhau nad yw eich cyfrif Facebook yn niweidio eich rôl broffesiynol, dylech sicrhau bod eich gosodiadau preifatrwydd yn briodol. Lle bo'n briodol, rydym yn argymell y dylech ddefnyddio'r lefel ddiogelwch 'Ffrindiau yn unig'.
- Dylech sicrhau eich bod yn logio allan o'ch cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar ôl ei ddefnyddio, yn enwedig pan fyddwch yn defnyddio peiriant y mae pobl eraill yn ei ddefnyddio hefyd. Gall pobl eraill ddefnyddio eich cyfrif os na fyddwch wedi logio allan, hyd yn oed os byddwch chi wedi cau eich porwr.

**Ymddygiad ar wefannau rhwydweithiau cymdeithasol**

- Peidiwch â gwneud sylwadau difrïol am y Cyngor, Aelodau'r Cyngor na'ch cydweithwyr. Os ydych am wneud cwyn ddilys, dylech ddefnyddio polisïau'r Cyngor a/neu sianeli priodol.
- Peidiwch â gwneud unrhyw sylwadau am ddefnyddwyr gwasanaethau'r Cyngor na chwsmeriaid y Cyngor.
- Peidiwch â gwneud unrhyw sylwadau am gyflenwyr y Cyngor.
- Peidiwch â chyhoeddi unrhyw wybodaeth sy'n gyfrinachol i'r Cyngor.
- Gallai defnyddwyr eraill bostio llun ar eu proffil sy'n eich enwi chi, felly ystyriwch unrhyw luniau yr ydych yn ymddangos ynddyn nhw. Ar Facebook, gallwch eich 'dad-dagio' eich hunan o lun. Os byddwch chi'n cael hyd i gyfeiriadau amhriodol atoch a/neu luniau amhriodol ohonoch a bostiwyd gan 'ffrind' ar-lein, dylech gysylltu â'r ffrind er mwyn dileu'r deunydd hwnnw.
- Cofiwch y bydd yr hyn yr ydych yn ei gyhoeddi ar gael yn gyhoeddus am gyfnod hir ac y gallai gael ei rannu'n eang heb eich caniatâd chi.
- Dylech ystyried effaith yr hyn yr ydych yn ei gyhoeddi ar eich cydweithwyr ac ar y cyhoedd.
- Gall fod yn bosibl i aelodau o'r cyhoedd gael mynediad i'ch proffil ac fe allent gwyno i'r Cyngor pe bai'r wybodaeth a/neu'r delweddau a geir ynddo'n annymunol yn eu barn nhw.
- Os ydych yn pryderu am unrhyw wybodaeth ar eich gwefan rhwydweithio cymdeithasol, neu os byddwch yn dioddef seiberfwlio, dylech roi gwybod i'r Rheolwr Llinell ar unwaith.
- Os byddwch yn gweld cynnwys neu weithgarwch a allai fod yn anghyfreithlon/camdriniol, gan gynnwys delweddau sy'n dangos camdriniaeth rywiol o blentyn ac achosion o feithrin perthynas amhriodol ar-lein, dylech roi gwybod ar unwaith i Swyddog Diogelu Penodedig eich Gwasanaeth.
- Os ydych yn pryderu am unrhyw ddelweddau neu sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol, dylech roi gwybod i'ch Rheolwr Llinell ar unwaith.
- Peidiwch â chyhoeddi eich dyddiad geni na'ch cyfeiriad cartref ar Facebook.
- Peidiwch â defnyddio eich manylion cyswllt yn y gwaith fel rhan o'ch proffil personol.

- Peidiwch â defnyddio eich proffil personol mewn unrhyw ffordd ar gyfer busnes swyddogol y Cyngor.
- Dylech sicrhau nad yw unrhyw sylwadau a/neu ddelweddau yr ydych yn eu postio yn ddifenwol nac yn torri amodau deddfwriaeth hawlfraint.
- Oni bai eu bod yn ffrindiau i'r teulu, peidiwch â derbyn ceisiadau i fod yn ffrind gan blant o dan 18 oed.
- Dylech ystyried goblygiadau derbyn ceisiadau i fod yn ffrind gan gydweithwyr a dylech ystyried a oes angen ichi newid eich gosodiadau preifatrwydd.
- Peidiwch â derbyn cais i fod yn ffrind gan aelod o'r cyhoedd os yw'ch perthynas â'r unigolyn hwnnw'n gysylltiedig â'ch gwaith yn bennaf.
- Os bydd plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch 999 i gael cymorth gan yr heddlu.

**Canllawiau diogelu ychwanegol**

- Peidiwch â gofyn i ddisgyblion na defnyddwyr gwasanaethau rannu unrhyw fanylion personol a allai ddatgelu eu bod yn blant neu'n oedolion sy'n agored i niwed a'u lleoliad. Mae manylion o'r fath yn cynnwys cyfeiriad cartref, ysgol a rhif ffôn symudol.
- Peidiwch â lanlwytho delweddau o blant ac oedolion sy'n agored i niwed oherwydd bod posibilrwydd y gallai'r pethau a ganlyn ddigwydd:
  (a) gallai plant/oedolion sy'n agored i niwed gael eu tagio, gan ddatgelu eu lleoliad a rhoi cyfle i gamdrinwyr wybod pwy ydyn nhw a chael hyd iddyn nhw ar wefannau cyfryngau cymdeithasol;
  (b) bygythiad personol drwy bostio sylwadau difrïol, ymosodol a bygythiol;
  (c) seiberfwlio.
- Cyn postio, dylech ystyried a yw unrhyw luniau, delweddau neu destun yn briodol ac a allent arwain at unrhyw bryderon posibl o ran diogelu.
- Peidiwch â derbyn ceisiadau i fod yn ffrind gan ddisgyblion (na'u rhieni) nac oedolion sy'n agored i niwed yr ydych yn gweithio gyda nhw.